

PWYLLGOR:	IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	04/11/2026
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Bragdy Nonsens, Uned 2b, Doc Fictoria, Caernarfon, Gwynedd LL55 1TH
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD

1 CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Derbyniwyd cais am drwydded eiddo gan Non Edwards ynghylch Bragdy Nonsens, Uned 2b, Doc Fictoria, Caernarfon, Gwynedd LL55 1TH. Cyflwynwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu ac fe wneir cais i weithredu'r eiddo o dan y Drwydded Eiddo a gyflwynwyd dan Ddeddf Trwyddedu 2003.
- 1.2 Disgrifir yr eiddo fel bragdy a bar. Bydd y bar yn gweini cwrw wedi'i fragu a chwrw gwadd naill ai'n lleol neu gwrw fwy cyfarwydd, megis 'Peroni'.
- 1.3 Mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal digwyddiadau cerddoriaeth fyw ambell waith y mis, gyda cherddoriaeth wedi'i recordio ar lefel gefndirol yn unig. Noda'r ymgeisydd yn rhan E o'r cais mai'r nod yw cael perfformiadau acwstig. Fodd bynnag, yn Rhan M o'r cais, mae'r ymgeisydd yn nodi y bydd y drysau a'r ffenestri yn cael eu cadw ar gau i leihau sŵn i gymdogion a bydd lefelau'r cerddoriaeth yn cael eu monitro.
- 1.4 Nodir mai'r oriau agor a gwerthu alcohol yw 12:00 tan 23:00, 7 niwrnod yr wythnos, ond mae'r ymgeisydd hefyd yn nodi yn rhan M y bydd cyfnod o 30 i 45 munud yn cael ei ganiatáu i orffen yfed pan fydd y bar wedi cau. Awgrymir bod yr ymgeisydd yn cadarnhau'r pwynt hwn i aelodau'r Is-bwyllgor yn ystod y gwrandawriad.
- 1.5 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

Gweler y tabl isod am fanylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedu:

Oriau Agor:

Dydd Sul - Dydd Llun: 12:00 – 23:00

Gweithgareddau Trwyddedig:

Gwerthu Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo:

Dydd Sul - Dydd Llun: 12:00 – 23:00

Cerddoriaeth wedi'i Recordio: Tu mewn yn unig:

Dydd Sul - Dydd Llun: 12:00 – 23:00

Cerddoriaeth Fyw: Tu mewn yn unig:

Dydd Sul - Dydd Llun: 12:00 – 23:00

2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Bwriad i ymuno a gweithio gyda Chynllun Pub Watch Caernarfon.
- Bydd staff yn derbyn hyfforddiant ar y pedwar amcan trwyddedu.
- Polisi Gwerthu a Her 25.
- Bydd TCC yn weithredol a bydd recordiadau yn cael eu cadw am 30 diwrnod.

- Bydd dull dim goddefgarwch yn cael ei gymryd tuag at gyffuriau anghyfreithlon ac ymddygiad ymosodol a bygythiol.
- Llyfr cofnodi damweiniau/digwyddiadau.
- Dim gwydr i adael yr eiddo ac ymdrinnir ag unrhyw achos o wydr wedi torri neu ollyngiadau yn brydlon.
- Cwsmeriaid i gael 30 i 45 munud i orffen eu diodydd ar ôl i'r bar gau i sicrhau nad yw pawb yn gadael y sefydliad ar yr un pryd.
- Y drysau a'r ffenestri i gael eu cadw ar gau i leihau sŵn i gymdogion.
- Bydd cwynion gan gymdogion yn cael eu cofnodi a'u hymchwilio gan reolwyr.
- Caniateir plant dan 18 oed gydag oedolyn ar yr eiddo.

Gweler Rhan M o'r cais am y rhestr lawn o fesurau a gynigir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU A GYFLWYNWYD
Iechyd yr Amgylchedd	Arsylwadau
Cynllunio	Gwrthwynebiad
Y Cynghorydd Huw Wyn Jones	Cefnogi

3.1 Gwrthwynebiad gan Iechyd yr Amgylchedd:

- 3.2 Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno cynrychiolaeth o ran yr amcan trwyddedu 'atal niwsans cyhoeddus'. Er nad oes cwynion ynglŷn â sŵn wedi cael eu derbyn yn ystod Rhybuddion Digwyddiadau Dros Dro blaenorol, nid oedd y digwyddiadau hynny yn cynnwys cerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio. Mae'r Gwasanaeth yn nodi agosrwydd llety gwesty a phreswyl ac wedi gofyn am dystiolaeth bod mesurau lliniaru sŵn priodol wedi cael eu gweithredu, yn unol ag amodau cymeradwyo cynllunio ar gyfer yr eiddo. Yn ddibynnol ar wybodaeth acwstig foddhaol yn codi o'r Asesiad Sŵn angenrheidiol; mae'r Gwasanaeth yn argymhell amodau yn ymwneud â rheoli sŵn adloniant, gan gynnwys cadw drysau a ffenestri ar gau tra bo cerddoriaeth ymlaen a chyfyngu cerddoriaeth wedi'i recordio i lefelau cefndirol yn unig.

Mae copi cyflawn o wrthwynebiad Iechyd yr Amgylchedd wedi'i atodi.

3.3 Gwrthwynebiad gan y Gwasanaeth Cynllunio:

- 3.4 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi gwrthwynebu i'r cais, gan gadarnhau bod y cais a gyflwynwyd ar hyn o bryd yn mynd yn groes i'r caniatâd cynllunio presennol, yn benodol o ran yr amodau sy'n ymwneud â rheoli arogl, rheoli sŵn ac oriau gweithredol.
- Gellir gweld copi llawn o'r gwrthwynebiad Cynllunio yn yr atodiad, ynghyd â chopïau o'r caniatâd cynllunio o ran yr eiddo hwn**

3.5 Cefnogaeth gan Y Cynghorydd Huw Wyn Jones:

- 3.6 Derbyniwyd un cynrychiolaeth yn cefnogi'r cais Mae'r ymatebwr yn cefnogi caniatáu'r drwydded ac yn ystyried nad yw'r cyfyngiadau cynllunio yn berthnasol i weithrediad yr ystafell tap arfaethedig a'u bod yn afresymol wrth ystyried natur yr ardal.

4.0 ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod y cais yn cael ei **gymeradwyo**, yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

- Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau **cydymffurfiaeth lawn ag amodau cynllunio**, a dylai'r drwydded ddod i rym unwaith y mae'r holl faterion cynllunio perthnasol wedi cael eu datrys yn unig, a
- Rhaid i'r oriau gweithredu a gweithgareddau trwyddedig fod yn unol â'r oriau a caniateir ar y caniatâd cynllunio.
- Dylid cynnal **asesiad effaith sŵn** ac mae'n rhaid gweithredu unrhyw fesurau lliniaru sŵn a argymhellir sy'n deillio ohono er mwyn ymdrin â phryderon iechyd yr Amgylchedd a sicrhau atal niwsans cyhoeddus.